YR NUT
UNDEB CENEDLAETHOL YR ATHRAWON



NUT CANLLAW ANG 2015-16

# Cyfnod Sefydlu

NUT

# Cymwys i addysgu yn 2015? Cewch aelodaeth lawn tan 2017 am




Ffoniwch neu ewch ar lein er mwyn uwchraddio o aelodaeth myfyriwr i aelodaeth lawn o'r NUT.

**Llinellau ymaelodi:**
**020 7380 6369**
Llun-Gwener (9am-5pm)

**Neu ewch ar-lein trwy ymweld â**
**www.teachers.org.uk/join**

# Annwyl gydweithiwr

Mae addysgu yn swydd arbennig. Mae'n un sy'n her ac yn bleser. Er mwyn dod yn athro cymwys ac ennill Statws Athro Cymwys (SAC), mae disgwyl i athro gwblhau cyfnod sefydlu o flwyddyn, fel arfer.


Cred yr NUT y dylai'r cyfnod sefydlu fod yn broses gefnogol sy'n helpu athrawon newydd i ddechrau datblygu eu hyder proffesiynol a'u gallu. Ni ddylai, felly, achosi pwysau ychwanegol i athrawon.

Fe fydd y ddogfen hon yn darparu atebion i athrawon newydd i nifer o'r cwestiynau sy'n codi yn ystod y cyfnod sefydlu.

Galla i gymryd y cyfle hwn i ddymuno pob llwyddiant yn ystod eich cyfnod sefydlu ac yn eich gyrfa. Fe fydd yr NUT yno i'ch cefnogi pob cam o'r ffordd.

Gyda dymuniadau gorau.

Yr eiddoch yn gywir.



Christine Blower
Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT



YR NUT

# Adnabod eich cynrychiolydd undeb

Eich cyswllt cyntaf o fewn yr Undeb yw eich cynrychiolydd neu eich ysgrifennydd lleol. Os nad oes cynrychiolydd yn eich gweithle, am gymorth a chyngor yn Lloegr dylech gysylltu ag AdviceLine yr NUT ac, yng Nghyrmu, NUT Cymru. Ceir manylion cyswllt ar dudalen 16.

# Mae gen i SAC. Beth nesaf?

Derbynioch statws athro cymwys (SAC). Nawr mae angen i chi gwblhau rhaglen sefydlu ac i gwrdd â'r *Safonau Athrawon* (Lloegr) neu'r *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru).

# Beth yw "Cyrff Priodol"?

Mae'r corff priodol yn gyfrifol am benderfynu os ydych chi'n cwrdd â'r *Safonau Athrawon* (Lloegr) neu'r *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru), yn seiliedig ar argymhelliad eich pennaeth.

# Beth yw'r *Safonau Athrawon* (Lloegr)?

Defnyddir y Safonau Athrawon er mwyn asesu'r rhai hynny sy'n cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol, yn ogystal â phob athro arall mewn ysgolion a gynhelir.

Dylai'r penderfyniad ynglŷn ag os yw ANG yn cyrraedd y safonau perthnasol ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu, ystyried cyd-destun gwaith yr ANG a dylid penderfynu ar sail yr hyn y gellir ei ddisgwyl o fewn rheswm gan ANG erbyn diwedd eu cyfnod sefydlu o fewn y fframwaith a osodwyd gan y Safonau. Dylai penderfyniadau adlewyrchu'r disgwyl bod ANG wedi atgyfnerthu addysg athrawon cychwynnol ac wedi dangos eu gallu i gyrraedd y safonau perthnasol yn gyson dros gyfnod parhaol tra wrth eu gwaith.

# Beth yw'r Safonau *Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru)?

Ar gyfer ANG yng Nghymru, mae'r model adolygu a datblygiad yn darparu'r cyd destun ar gyfer eu datblygiad hir dymor ac yn gosod y safonau athrawon wrth eu gwaith y disgwylir iddynt i gwrdd â nhw ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu. Nod y model yw i godi safonau addysgu ac i wella deilliannau'r dysgwyr ar draws Cymru trwy gysylltu safonau proffesiynol ymarferwyr, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol i un system cydlynus.

# Ble gallaf gwblhau fy nghyfnod sefydlu?

## Gellir cwblhau'r cyfnod sefydlu yn y canolfannau canlynol os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- ol berthnasol yn Lloegr – mae hyn yn cynnwys ysgol fabanod, gynradd, uwchradd neu ganol a gynhelir; ysgol feithrin a gynhelir neu nas gynhelir; ysgol feithrin sy'n rhan o ysgol a gynhelir; canolfan blant a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol; ac uned cyfeirio disgyblion (PRU)
- ysgol annibynnol yn Lloegr (gan gynnwys academïau, ysgolion rhydd, a cholegau technegol dinesig) neu ysgol feithrin annibynnol sy'n dewis cynnig sefydlu statudol
- sefydliad addysg bellach (FE) gan gynnwys coleg chweched dosbarth yn Lloegr
- ysgol neu ganolfan FE yng Nghymru ble mae'r cyfnod sefydlu yn digwydd dan *Reoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu i Athrawon Ysgolion) (Cymru)* gan gynnwys ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir sy'n cynnig cyfle i gwrdd â'r safonau, ysgolion arbennig nas gynhelir ac ysgolion annibynnol sy'n cwrdd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol
- ysgol Brydeinig tramor sy'n destun arolygiadau gan gorff arolygu wedi'i gymeradwyo gan y DfE yn erbyn y *Safonau Ysgolion Prydeinig Tramor* ac sy'n aelod o gymdeithas s'yn achredig gan y DfE.

## Ni ellir cwblhau'r cyfnod sefydlu yn y canolfannau canlynol (gyda rhai eithriadau):

- canolfan hyfforddi ddiogel
- ysgol sydd angen mesurau arbennig (gweler tud 7)
- canolfan FE yr ystyrir iddi fod yn annigonol (categori 4) (gweler tud 7)
- canolfan FE a dderbyniodd categori 4 ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth (gweler tud 7)
- ysgolion annibynnol ac ysgolion meithrin yn ogystal â sefydliadau blynyddoedd cynnar eraill nad ydynt yn cynnig cyfnod sefydlu statudol neu nad ydynt yn cwrdd â disgwyliadau'r cwricwlwm cenedlaethol
- uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru
- ysgolion arbennig cymunedol neu sylfaen a sefydlwyd mewn ysbytai yng Nghymru
- ysgolion tramor, gan gynnwys Ysgolion Prydeinig Tramor sydd:
  - heb dderbyn arolygaeth ddiweddar (o fewn pedair blynedd) gan arolygwyr cymeradwy
  - wedi derbyn dyfarniad arolygaeth ond sydd heb gwrdd â phob un o'r safonau/categorïau yn foddhaol.

Pan fo sefydlu yn medru digwydd neu barhau mewn ysgol a gynhelir sydd mewn mesurau arbennig neu mewn sefydliad FE a ddyfarnwyd yn annigonol:

- gall ysgolion barhau i gynnig sefydlu pan fo athro wedi bod ar gynllun addysg athrawon a seiliwyd ar gyflogaeth yn yr un ysgol cyn derbyn SAC, neu oedd wedi cychwyn cyfnod sefydlu yn yr ysgol cyn iddi ddechrau ar fesurau arbennig
- yn gyffredinol, pan fo ysgol yn cychwyn mewn mesurau arbennig nid oes hawl ganddi recriwtio ANGau. Er hyn gall arolygydd Ofsted ddyfarnu os yw ysgol yn addas at ddibenion sefydlu. Mewn rhai achosion, yn enwedig mewn ysgolion mwy, gall Ofsted ganiatáu penodi ANG i adrannau neu
adrannau pynciol penodol o fewn ysgol
- all ANG sydd eisoes ar gyfnod sefydlu mewn canolfan FE pan y dyfernir bod effeithiolrwydd y ganolfan, neu rhan o'r addysg neu'r hyfforddiant yn annigonol (categori 4) yn ystod arolwg, gwblhau'r cyfnod sefydlu. Gall ganolfannau FE a ddyfarnwyd yn annigonol, neu pan ddyfernir arweinyddiaeth a rheolaeth yn annigonol, ofyn i Estyn i wneud dyfarniad ar eu gallu, yn rhannol neu yn llawn, i gynnal cyfnod sefydlu a chael caniatâd gan Estyn i wneud hynny
- ym mhob achos, mae'n rhaid i'r corff addas fod yn fodlon na fydd amgylchiadau yn effeithio'n negyddol ar allu ANG i gwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus.

## Oes terfyn amser er mwyn dechrau'r cyfnod sefydlu?

Tra ein bod yn annog ANG i ddechrau eu cyfnod sefydlu cyn gynted a phosib wedi iddynt dderbyn statws athro cymwys (SAC), nid oes terfyn amser er mwyn dechrau neu orffen y cyfnod sefydlu. Mae hyn yn berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

# Galla i weithio fel athro cyflenwi?

## Cyflenwi yng Nghymru

Yng Nghymru gall bob ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu trwy gronni cyfnodau o gyflenwi byr dymor, gronni 380 sesiwn ysgol (un flwyddyn academaidd) ble mae un sesiwn yn fore neu'n brynhawn, er mwyn cael eu hasesu yn erbyn y *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith*. Fe fydd disgwyl i ANG sy'n cwblhau eu cyfnod sefydlu yn y dull hwn gwblhau portffolio o dystiolaeth a chwblhau ffurflen hysbysu cyflenwi byr dymor gyda Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Wedi iddynt gwblhau'r ffurflen hon, gall ANG logio pob cyfnod trwy system mynediad dros y we gyda'r (CGA).

## Cyflenwi yn Lloegr

Yn Lloegr, ni all gyfnodau tymor byr o gyflenwi o lai nag un tymor, neu gyfnod cyfartal, gyfrif tuag at sefydlu, gan nad yw lleoliadau o'r fath yn darparu ANG gyda'r ehangder o brofiad, cefnogaeth nac asesiad addas er mwyn eu galluogi i arddangos eu bod wedi cyrraedd y safonau angenrheidiol. Gall athro cymwys, nad yw wedi cwblhau'r cyfnod sefydlu, dderbyn swydd tymor byr fel athro cyflenwi o lai nag un tymor mewn ysgol berthnasol (gweler tudalen 6) am uchafswm cyfnod o 5 mlynedd o'r pwynt y dyfarnir SAC. Mae hwn yn gyfnod penodedig a does dim modd ei ymestyn.

# Galla i weithio rhan amser neu fel athro teithiol a chwblhau'r cyfnod sefydlu?

Yr ysgol a'r corff priodol fydd yn penderfynu ym mhob achos unigol, hyd y cyfnod sefydlu sy'n deg ac sy'n cymryd i ystyriaeth patrwm gweithio'r ANG.

Fe fydd yn angenrheidiol i ANG sydd yn cwblhau unrhyw ran o'u cyfnod sefydlu yn rhan amser, gwblhau'r hyn sydd gyfwerth a swydd llawn amser (FTE) sef blwyddyn academaidd. Felly fe fyddai angen i ANG sy'n gweithio 0.5 FTE gwblhau'r cyfnod sefydlu dros ddwy flynedd academaidd.

**NODER:** Ni all gyfnodau o lai na thymor gyfrannu tuag at y cyfnod sefydlu, ar wahân i Gymru, ble mae tystiolaeth ble y gellir ystyried tystiolaeth o sesiynau ysgol.

# Cyrsiau i chi ar ddechrau eich gyrfa

**Strategaethau dosbarth cadarnhaol ar gyfer athrawon newydd**
20-21 Tach 2015
Dilyniant 4-5 Mawrth 2016
**Neuadd Stoke Rochford**
– preswyl
**AM DDIM**
i aelodau NUT

YR NUT

learning with the NUT

Rydym yn gwerthfawrogi faint o sialens yw cychwyn eich gyrfa addysgu.

Gallwn eich cynorthwyo i ffocysu ar sialensau eich blwyddyn gyntaf yn yr ystafell ddosbarth gyda phwyslais ar y technegau a'r sgiliau fydd angen arnoch chi i lwyddo.

**Mae ein cyrsiau ANG yn eich galluogi i:**

- adeiladu ar eich dysgu yn ystod addysg athro cychwynnol
- cynyddu eich hyder a gwneud dechrau cadarnhaol gyda disgyblion, rhieni ac eraill
- datblygu arddulliau dysgu cadarnhaol a strategaethau ystafell ddosbarth
- deall ymddygiad disgyblion yn well
- paratoi gwersi sy'n symud disgyblion ymlaen gyda'u dysgu
- deall y cysylltiadau rhwng addysgu, cynnwys gwersi ac ymrwymiad disgyblion
- archwilio materion amodau gwasanaeth a'ch hawliau yn y gwaith
- cymryd rhan ymarferol yn eich undeb

Am fanylion pellach am y cyrsiau hyn ac er mwyn gwneud cais ar lein ewch i **www.teachers.org.uk/courses**

# Oes angen i mi gwblhau'r cyfnod sefydlu os ydw i wedi dysgu y tu hwnt i Gymru neu Loegr?

Os ydych yn athro a hyfforddodd tramor yn Awstralia, Seland Newydd, Canada neu Unol Daleithiau America, gallwch addysgu yn Lloegr heb fod angen i chi ymgymryd â chyfnod sefydlu.

Os i chi dderbyn statws Athro Cymwys Sgiliau a Dysgu gan yr Sefydliad dros Ddysgu (IFL) ac eich bod yn aelod gyda'r IFL, nid oes angen i chi ymgymryd â chyfnod sefydlu.

Mae yna nifer o eithriadau eraill i'r cyfnod sefydlu a gellir dod o hyd i fanylion pellach yn Atodiad B y *Canllawiau Statudol ar gyfer y Cyfnod Sefydlu* gan y DfE.

Yng Nghymru, gellir asesu athrawon a hyfforddwyd tramor y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sydd wedi derbyn SAC trwy lwybr a seiliwyd mewn cyflogaeth yn erbyn Safonau Athrawon wrth eu Gwaith neu eu heithrio rhag cwblhau'r cyfnod sefydlu. Ar gyfer trigolion yr AEE yng Nghymru gallant wneud cais i'w heithrio trwy'r ffurflen gais EWC.

# Beth am y profion sgiliau?

Yn Lloegr, fe fydd disgwyl i bob athro dan hyfforddiant i basio'r medrau hyn mewn rhifedd a llythrennedd cyn y gellir dyfarnu SAC.

Disgwylir i ymgeiswyr addysg cychwynnol athrawon i basio prawf sgiliau mewn rhifedd a llythrennedd cyn iddynt ddechrau eu cyrsiau.

Ceir manylion pellach am y profion sgiliau trwy ymweld â be found at **http://sta.education.gov.uk**

Os ydych yn ymgymryd ag addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, fe fydd rhai sefydliadau yn disgwyl i chi llwyddo mewn prawf llythrennedd a rhifedd cyn cychwyn y cwrs. Unwaith ar y cwrs, fe fydd athrawon yn derbyn awdit cyson ac ar ddiwedd y cwrs fe fydd disgwyl iddynt brofi eu bod o leiaf wedi cadw'r un safon perfformiad cyn y dyfernir SAC. Ar hyn o bryd, nid oes profion llythrennedd a rhifedd diwedd cwrs gan Lywodraeth Cymru.

# Beth am Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYP)?

Yng Nghymru, mae gan ANG y dewis i fod yn rhan o'r Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y rhaglen meistr trwy ymweld â **www.walesmep.ac.uk**

# Yr NUT – yr undeb i athrawon newydd

NATIONAL UNION OF TEACHERS NUT

Cymerwch ran gyda'ch undeb cyn gynted i chi ddechrau eich gyrfa addysgu trwy:

- rhwydweithio gydag athrawon newydd eraill mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol
- adael i'ch undeb i wybod yr hyn sy'n bwysig i chi fel athro newydd
- gefnogi ymgyrchoedd NUT lleol a chenedlaethol.
- ddod yn weithredol yn eich ysgol a'ch ardal leol fel cynrychiolydd NUT



Llun: Justin Tallis

Am fanylion pellach ar sut i fod yn rhan o weithgareddau cysylltwch â'r NUT trwy **newteachers@nut.org.uk**

# Beth yw fy hawliau yn ystod y cyfnod sefydlu? Beth gallaf yn rhesymol ei ddisgwyl?

Cred yr NUT y dylai rhaglenni sefydlu bod yn rhesymol. Ei chred hefyd yw bod gennych yr hawl i gytundeb parhaol.

**Mae gennych yr hawl** i ddisgrifiad swydd rhesymol sydd:

- ddim yn gwneud galwadau afresymol
- ddim yn disgwyl i chi addysgu y tu hwnt i'r amrediad oedran na'r pwnc (pynciau) i chi hyfforddi ar eu cyfer (Cymru) neu eich cyflogi (Lloegr)
- ddim yn cyflwyno problemau disgyblaeth afresymol neu difrifol yn ddyddiol
- yn cynnwys addysgu dosbarth(iadau) rheolaidd
- yn cynnwys cynllunio, addysgu a phroses asesu tebyg i'r rhai gan athrawon sy'n gweithio mewn swyddi tebyg yn yr ysgol
- ddim yn cynnwys dyletswyddau nad ydynt yn ddyletswyddau addysgu ychwanegol heb ddarpariaeth paratoi a chefnogaeth addas.

**Mae gennych yr hawl** i lwyth gwaith addysgu o ddim mwy na 90 y cant o amserlen eraill ar y brif raddfa gyflog yn yr ysgol heb bwyntiau cyfrifoldeb. Cred yr NUT y dylai eich amser rhydd o addysgu ar gyfer dibenion sefydlu:

- bod mewn blociau defnyddiol, nad yw'n llai na hanner diwrnod
- bod wedi'i amserlennu ym mhell o flaen llaw er mwyn caniatáu cynllunio ar gyfer yr amser
- ddim achosi pwysau gwaith ychwanegol i athrawon eraill
- bod ag athro cyflenwi profiadol rheolaidd fel y gall dysgu'r disgyblion a safonau disgyblaeth barhau
- bod wedi'i amserlennu a pheidio cael ei ganslo ar wahân i achosion o argyfwng.

**Mae gennych yr hawl** i raglen sefydlu wedi'i chynllunio, wedi'i theilwra i'ch anghenion a'ch amgylchiadau unigol chi, mae hyn yn cynnwys cyfle i chi:

- dderbyn arsylwadau gwersi yn gyson yn ystod eich cyfnod sefydlu a chael trafodaeth ddilynol. Dylai arsylwadau ffocysu ar agweddau penodol o'ch addysgu
- dderbyn adolygiadau proffesiynol cyson o'ch cynnydd
- arsylwi athrawon profiadol yn eich ysgol ac mewn ysgolion eraill.

Yng Nghymru, seilir eich cyfnod sefydlu ar eich proffil dechrau gyrfa.

Dylai'r trefniadau ar gyfer arsylwadau o'ch addysgu ddigwydd ymhell o flaen llaw a dylid cadw cofnodion ysgrifenedig byr ar bob achlysur. Fe'ch cynghorir gan yr NUT i gadw copi o gofnodion o'r fath.

**Mae gennych yr hawl** i diwtor sefydlu er mwyn cynnig cefnogaeth a monitro o ddydd i ddydd.

Yng Nghymru, mae'n rhaid i'r pennaeth adnabod mentor yn yr ysgol a fydd yn gweithio gyda chi a mentor allanol yn gweithio ar ran y corff priodol (gweler tud 5) Dylid penodi mentor allanol wedi 190 sesiwn.

**Mae gennych yr hawl** i gefnogaeth gan eich pennaeth, sydd â chyfrifoldeb dros y cyfnod sefydlu ac ar gyfer asesu os ydych chi wedi cwrdd â'r *Safonau Athrawon* (Lloegr) neu'r *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru) ac ar gyfer sicrhau eich bod yn derbyn cyngor ar:

- amserlenni gwersi a threfniadau cefnogaeth, enwau a chysylltiadau tiwtoriaid sefydlu ac amserlen ar gyfer asesiadau ffurfiol a chyfarfodydd
- trefniadau adrodd a hawliau i gyflog yn ystod cyfnodau o salwch, cysylltiadau wedi'u henwi ar gyfer absenoldebau eraill, ee cyfnod mamolaeth
- trefniadau ar gyfer tâl
- darpariaethau ar gyfer pensiwn ac unrhyw hawliau eraill
- polisïau iechyd a diogelwch a chyfleon cyfartal
- polisïau perthnasol eraill gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwarchod a diogelu plant
- natur y cytundeb cyflogaeth, rhestr o ddyletswyddau a threfniadau rheolaeth.

**Mae gennych yr hawl** i oruchwyliaeth gan gorff addas. Dylai ddarparu enw unigolyn er mwyn i chi godi unrhyw bryderon gyda nhw ynglyn â'ch sefydlu sy'n mynd ymhellach na systemau neu weithdrefnau sefydlu.

**Cred yr NUT bod gennych yr hawl** i asesiadau cefnogol, a ddylai bwysleisio llwyddiant a chyrhaeddiad yn hytrach na gor-bwysleisio trafferthion neu fethiannau.

Dylai asesiadau, gan gynnwys targedau, gael eu hadolygu gennych chi a'ch tiwtor sefydlu a dylid eu haddasu er mwyn adnabod unrhyw anghenion a nodwyd yn ystod asesiad ffurfiol.

Cynlluniwyd y Proffil Dechrau a Datblygu gyrfa yn Lloegr a'r Proffil Dechrau Gyrfa yng Nghymru er mwyn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso (ANG) i feddwl am eu datblygiad proffesiynol.

# Oes angen i fi ddefnyddio'r Proffil Dechrau Gyrfa (Cymru)?

Cynlluniwyd y Proffil Dechrau Gyrfa yng Nghymru er mwyn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant ac ANG i feddwl am eu datblygiad proffesiynol.

Seiliwyd hi ar dri chyfnod o newid:

- tuag at ddiwedd eich addysg athrawon cychwynnol
- ar ddechrau'r cyfnod sefydlu
- ar ddiwedd eich cyfnod sefydlu.

Disgwylir i bob athro newydd yng Nghymru i rannu eu Proffil gyda'r ysgol ble maent yn ymgymryd â'r cyfnod sefydlu. Dylai eich Proffil gynnwys gwybodaeth werthfawr ynglŷn â'ch cryfderau a'ch blaenoriaethau datblygiad, fel y gallwch chi a'ch mentor ysgol weithio ar y cyd er mwyn datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar eich ymatebion yn y Proffil. Gall hefyd gael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi'r broses sefydlu, er enghraifft, trwy eich cynorthwyo chi a'ch mentor ysgol i adolygu'r cynllun gweithredu. Fe fydd angen i'ch mentor allanol i weld eich Proffil

# Oes gennyf yr hawl i amser CPA?

Oes, mae'n rhaid i'r pennaeth sicrhau bod gan bob ANG amserlen wedi'i leihau o ddim mwy na 90 y cant o amserlen athrawon prif raddfa eraill yn yr ysgol er mwyn iddynt medru ymgymryd â gweithgareddau yn eu rhaglen sefydlu. Mae hyn yn ychwanegol i leihad yn yr amserlen ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) y mae pob athro yn ei dderbyn. Dylai ANG mewn ysgolion, gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd, ysgolion meithrin annibynnol a cholegau FE dderbyn amserlen wedi'i leihau ar gyfradd debyg.

# Sut allaf ddod o hyd i fanylion pellach?

## www.teachers.org.uk

Ewch i wefan yr NUT er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar eich cyflog a'ch amodau gwaith.

## www.gov.uk/dfe

Tudalen Yr Adran Addysg (DfE) ar wefan y Llywodraeth sy'n gosod disgwyliadau ac anghenion sefydlu yn Lloegr.

## www.learning.wales.gov.uk

Gwefan Llywodraeth Cymru sy'n gosod disgwyliadau ac anghenion ar gyfer sefydlu yng Nghymru.

## www.ewc.wales

Ffôn: **029 2046 0099**
Ebost: **information@ewc.wales**
Cysylltwch â'r Cyngor Gweithlu Addysg am gyngor cofrestru yng Nghymru ac am gyngor ar y cyfnod sefydlu a'r ddwy flynedd ddilynol o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar yng Nghymru, gan gynnwys cyllido.

# Pa gefnogaeth sydd ar gael gan yr NUT?

Mae croeso i aelodau gyrchu cyngor a chefnogaeth gan yr NUT ar unrhyw gyfnod yn ystod y cyfnod sefydlu. Os oes gennych bryderon mae o fudd i chi i'w datrys mor gynnar â phosib. Peidiwch ei adael yn rhy hwyr! Dylech gyrchu cyngor gan yr NUT os:

- ydych yn credu nad ydych yn derbyn eich hawliau
- ydych yn ystyried nad yw argymhellion yr Undeb ar arfer dda, a nodwyd yn y ddogfen hon, wedi'u hateb a bod hyn wedi effeithio'n negyddol ar eich sefydlu'n llwyddiannus
- yw absenoldeb hir yn effeithio ar eich cyfnod sefydlu, megis absenoldeb hir neu ailadroddus o ganlyniad trwy salwch
- oes angen cyngor ar famolaeth yn ystod eich cyfnod sefydlu
- ydych yn poeni am y gefnogaeth a ddarperir i chi yn eich ysgol ac eich bod yn credu bod eich perthynas proffesiynol/gwaith gyda'ch tiwtor sefydlu, pennaeth neu aelodau eraill o staff yn atal eich datblygiad
- ydych yn poeni o gwbl am lwyddiant eich cyfnod sefydlu neu os dymunwch apelio yn erbyn penderfyniad ffurfiol.

# Sut ydw i'n cysylltu?

Yn eich ysgol eich cyswllt cyntaf yn yr undeb yw'r cynrychiolydd NUT. Os nad oes cynrychiolydd NUT yn eich gweithle, yn Lloegr dylech gysylltu ag AdviceLine yr NUT ac, yng Nghymru, NUT Cymru.

Am gyngor ac arweiniad yn Lloegr, cysylltwch â:

**NUT AdviceLine**

Ffôn: **020 3006 6266**
Ebost: **nutadviceline@nut.org.uk**

Yng Nghymru cysylltwch â:


**NUT Cymru**

Ffôn: **029 2049 1818**
Ebost: **cymru.wales@nut.org.uk**

# Rhanbarthau NUT a Chymru

Dyma'r ardaloedd a weinyddwyd gan swyddfeydd rhanbarthol yr NUT yn Lloegr, ac NUT Cymru yng Nghymru, a'u manylion cyswllt.

1 Y Gogledd
2 Y Gogledd Orllewin
3 Swydd Efrog a'r Canolbarth
4 Canolbarth Lloegr
5 Y Dwyrain
6 Y De Ddwyrain
7 Y De Orllewin
8 Llundain
C Cymru



**Swyddfa Rhanbarthol NUT y Gogledd**
Ffôn: **0191 482 7700**
Ebost: **northern@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarthol NUT y Gogledd Orllewin**
Ffôn: **01204 521 434**
Ebost: **north.west@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarthol NUT Swydd Efrog/Canolbarth**
Ffôn: **01302 342 448**
Ebost: **yorkshire.midland@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarthol NUT Canolbarth Lloegr**
Ffôn: **0121 647 4397**
Ebost: **midlands@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarth NUT y Dwyrain**
Ffôn: **01638 555 300**
Ebost: **eastern@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarth NUT y De Ddwyrain**
Ffôn: **01444 894 500**
Ebost: **south.east@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarth NUT y De Orllewin**
Ffôn: **01392 258 028**
Ebost: **south.west@nut.org.uk**

**Swyddfa Rhanbarthol NUT Llundain**
Ffôn: **020 8477 1234**
Ebost: **london@nut.org.uk**

**Cymru NUT Cymru**
Ffôn: **029 2049 1818**
Ebost: **cymru.wales@nut.org.uk**



Ein nod:
un undeb
i bob
athro

# Cefnogwch undod proffesiynol

## Un undeb – pam nawr?

Gan ein bod yn gryfach gyda'n gilydd.

Ymgyrchodd yr NUT yn gyson er mwyn sicrhau un undeb i bob athro. Fe fyddai un undeb yn sicrhau y clywir llais y proffesiwn.

Mae'r NUT yn falch o gydweithio gyda'r ATL, NASUWT, UCAC, ASCL a'r NAHT ar ymgyrchoedd amrywiol ar adegau gwahanol er mwyn sicrhau bod llais arbenigol y proffesiwn yn rhoi siâp i addysg a pholisi ysgolion.

## Siaradwch dros un undeb

Rydym yn gofyn i undebau athrawon eraill i siarad gyda ni am y posibilrwydd o ffurfio un undeb. Os ydych chi'n cytuno mai nawr yw'r amser am undod proffesiynol - siaradwch dros un undeb i bob athro. Dywedwch pam yr ydych yn cefnogi undod. E-bostiwch unity@nut.org.uk

# Ein nod: un undeb i bob athro

**Cymhwyso yn 2015?**
Cewch aelodaeth lawn tan 2017 am £1 yn unig

Er mwyn ymuno neu uwchraddio o aelodaeth myfyriwr i ewch ar-lein **www.teachers.org.uk/join**
neu aelodaeth lawn, ffoniwch ein llinellau **020 7380 6369**

Dilynwch ni ar Twitter
**twitter.com/NUTonline**

Dewch o hyd i ni ar Facebook
**facebook.com/nut.campaigns**

Cyhoeddwyd gan NUT **www.teachers.org.uk** Dyluniwyd gan Paragraphics – **www.paragraphics.co.uk**
Argraffwyd gan Wasg College Hill Press **www.collegehillpress.co.uk** 10037w/04/15